

# Defnyddio gwrthwynebiad

“... ond nid yw'r Goruchaf yn trigo mewn tai o waith llaw.” (adn. 48)

## Beth am ddarllen Actau 7:44–60 ac yna myfyrio

Ddoe, fe nodwyd mai yr Eglwys yn Antiochia oedd yr eglwys gyntaf yn y Testament Newydd i gael ei galw yn Eglwys Gristnogol. Dyma'r Eglwys y galwodd Duw ar Saul i fod yn weinidog arni, tra ar yr un pryd yn parhau i'w hyfforddi yntau fel disgybl. Yr wyf am edrych yn awr ar rai o nodweddion yr Eglwys hon sydd yn ei gwneud yn esiampl dda ar gyfer yr Eglwys heddiw. Y nodwedd gyntaf yw hon: bod yr Eglwys yn Antiochia wedi ei sylfaenu gan wŷr a gwragedd oedd wedi dioddef ar gyfrif eu ffydd gan droi y gwrthwynebiad yn gyfle. Mae Actau 11:19 yn dweud wrthym fel hyn: “Yn awr yr oedd y rhai a wasgarwyd oherwydd yr erlid a gododd o achos Steffan wedi teithio cyn belled â Phenice a Cyprus ac Antiochia...”

Yr wyf yn tybied y bydd yn ddefnyddiol i ni edrych am eiliad ar brif fyrdrwn pregeth Steffan. Dyma'r bregeth hiraf yn y Testament Newydd (ar wahân i'r Bregeth ar y Mynydd) ac mae'n debyg mai dyma'r bregeth fwyaf arwyddocaol a gyhoeddwyd gan unrhyw ddilynwyr i Iesu Grist yr amser honno. Dywedodd wrth aelodau y Sanhedrin: “Nid yw y Goruchaf yn byw mewn tai o waith llaw ... yr ydych chi yn wastad yn gwrthwynebu yr Ysbryd Glân! ... A chwithau yn awr, bradwyr a llofruddion fuoch iddo ef.”

Pan bu i Steffan ymosod ar yr arweinwyr crefyddol yma ar gyfrif eu credo mewn Duw oedd wedi ei gyfyngu i'r deml, fe welsant hyn fel arwydd peryglus a hyn arweiniodd at labyddio Steffan. Yn dilyn, fe gododd y fath wrthwynebiad i'r Eglwys Gristnogol fel bod llawer wedi gorfod ffoi o Jerwsalem gan ddianc i ardaloedd eraill o fewn yr ymerodraeth. Mi fyddai'n bosibl iddynt fod wedi cuddio, wedi mynd â'u ffydd newydd a'i chynnal a'i choleddu yn y dirgel. Ond nid felly y bu. Aethant i bob man gan rannu eu ffydd gyda phob dyn. Dyma bobl oedd nid yn unig yn dioddef erledigaeth ond yn defnyddio erledigaeth. Yr oedd yn costio i'r rhain fod yn Gristnogion ond yr oedd yn golygu rhywbeth i'r rhain hefyd i fod yn Gristnogion.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Actau 8:1–8; Rhuf. 5:1–5; 2 Cor. 4:1–12; Phil. 1:12–21

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut y gellir cysylltu gwrthwynebiad ag efengylu?
2. Beth arall all gwrthwynebiad ei hybu?

## Gweddi

O Dad, cynorthwya ni i ddysgu'r wers na ddylem yn unig ddioddef erledigaeth ond defnyddio erledigaeth. Gallaf ddefnyddio popeth pan fyddaf gyda thi. Mae hyd yn oed maen tramgwydd yn troi yn garreg i'n cynorthwyo i godi i dir uwch. Rwyf am ddiolch i ti Arglwydd. Yn enw Iesu. Amen.